Polisi Diogelu Data Estyn

Paratowyd o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Ionawr 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Swyddog Gwybodaeth
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at ymholiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Datganiad polisi

Cyflwyniad

Daeth Deddf Diogelu Data 1998 i rym ar 1 Mawrth 2000. Mae'n gosod rheolau ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol ac mae'n gymwys i ddata personol a ddelir mewn cofnodion papur strwythuredig yn ogystal â'r rheiny a ddelir ar gyfrifiaduron. Yn ogystal, estynnwyd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 1998 gan Ddeddf Diogelu Data 2000 i fod yn gymwys i'r holl ddata personol cofnodedig (gan gynnwys data a ddelir mewn cofnodion papur anstrwythuredig) a ddelir gan reolwyr data sydd hefyd yn awdurdodau cyhoeddus at ddibenion Deddf 2000.

Mae'r datganiad polisi hwn yn nodi'r trefniadau a weithredir gan Estyn i sicrhau cydymffurfio â'r Ddeddf.

Amseru

Ar unwaith.

Polisi

Mae Estyn wedi ymrwymo i gydymffurfio'n llawn â Deddf Diogelu Data 1998 a bydd yn ymgymryd â dilyn yr wyth egwyddor arfer dda y gellir eu gorfodi. Mae'r rhain yn ei wneud yn ofynnol i'r data:

- gael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithlon;
- cael ei brosesu at ddibenion cyfyngedig;
- bod yn ddigonol, yn berthnasol ac nid yn ormodol;
- bod yn gywir;
- peidio â chael ei gadw am fwy o amser nag sy'n ofynnol;
- cael ei brosesu yn unol â hawliau testun y data;
- cael ei gadw'n ddiogel; a
- pheidio â chael ei drosglwyddo i wledydd nad ydynt yn rhan o'r AEE (Ardal Economaidd Ewropeaidd) heb ddiogelwch digonol.

Mae data personol yn cynnwys ffeithiau a barn am yr unigolyn. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â bwriad rheolwr y data o ran yr unigolyn.

Rolau a Chyfrifoldebau

Yn y pen draw, **Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru** sy'n gyfrifol am bennu'r polisïau a fydd yn gymwys i ddata personol a ddelir gan Estyn ac am sefydlu polisïau, gweithdrefnau ac

arweiniad ar gyfer gweinyddu data personol er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998.

Mae **Penaethiaid Cyfarwyddiaethau** yn gyfrifol am sicrhau bod data personol a brosesir yn eu meysydd cyfrifoldeb yn cydymffurfio'n llawn â'r polisïau a'r gweithdrefnau a osodir gan y Prif Arolygydd, gan gynnwys data personol a brosesir gan gontractwyr, partneriaid neu gyrff eraill sy'n gweithio gydag Estyn o dan gytundebau lefel gwasanaeth.

Mae **Rheolwyr** yn gyfrifol am sicrhau bod staff y maent yn eu cyfarwyddo ac yn eu rheoli yn ymwybodol o'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arweiniad a osodwyd gan y Prif Arolygydd ac am wirio bod y staff hynny'n deall ac yn cymhwyso polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad yn briodol wrth wneud eu gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r **holl staff** yn gyfrifol am brosesu data personol yn unol â'r wyth egwyddor diogelu data a'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arweiniad a osodwyd gan y Prif Arolygydd.

Mae'r **Swyddog Gwybodaeth** yn gyfrifol am weinyddu pob cais am fynediad at destun a wneir i Estyn am ddatgelu data personol. Bydd y Swyddog Gwybodaeth hefyd yn bwynt cyswllt i holl staff Estyn sydd angen cyngor ar faterion sy'n ymwneud â materion diogelu data. Lle bo modd, bydd y Swyddog Gwybodaeth yn cynnig cyngor yn uniongyrchol i staff ar faterion diogelu data neu, fel arall, yn cyfeirio at berson cymwys i gael y fath wybodaeth.

Hyfforddiant

Bydd Estyn yn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant sy'n briodol i'w cyfrifoldebau o dan y polisi hwn a gweithdrefnau ac arweiniad perthnasol. Bydd Estyn hefyd yn sicrhau bod contractwyr, cyrff sy'n gweithio o dan gytundebau lefel gwasanaeth a chytundebau partneriaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i Estyn fel proseswyr data a bod ganddynt ddulliau digonol ar waith i sicrhau y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau mewn ffordd gymwys.

Monitro, adolygu a gwerthuso

Mae Estyn yn cadw cofrestr o'r holl geisiadau a dderbynnir i ddatgelu data personol. Monitrir perfformiad wrth ymdrin â'r fath geisiadau gan y swyddog gwybodaeth a'i adrodd i'r Uwch Dim Rheoli.

Mae gan Estyn weithdrefnau i adolygu'n systematig ei drefniadau ar gyfer gweinyddu a rheoli data personol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys systemau ar gyfer archwilio cydymffurfiad â'r Ddeddf gan Estyn a'r rheiny sy'n prosesu data ar ran Estyn.

Bydd Estyn yn cadw cofrestr o'r holl gwynion a dderbyniwyd am ei drefniadau diogelu data a bydd yn sicrhau y defnyddir unrhyw bwyntiau dysgu sy'n codi o'r fath gwynion i wella ein polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad diogelu data.

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol o leiaf i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfoes, yn effeithiol ac yn cymryd arfer dda sy'n codi i ystyriaeth. Lle daw cyfarwyddiadau cyfreithiol newydd i rym, adolygir y polisi yn unol â dyddiad cychwyn y ddeddfwriaeth honno. Bydd hyn yn cynnwys penderfyniadau perthnasol y tribiwnlys diogelu data.

Cwynion

Os oes gennych gŵyn am y ffordd y mae Estyn wedi ymateb i gais am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, dylech ofyn i Estyn adolygu ei benderfyniad. Dilynwch y camau yng Ngham 3 o **Weithdrefnau Adborth a Chwynion Estyn**. Cynhelir yr adolygiad gan y tîm priodol o fewn Estyn. Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, gallwch fynd â'r mater at y Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar ddiwedd y datganiad polisi hwn.

Diffiniadau

O dan y Ddeddf, diffinnir **data** yn wybodaeth sy'n:

- cael ei phrosesu drwy offer sy'n gweithredu'n awtomatig mewn ymateb i gyfarwyddiadau a roddir at y diben hwnnw;
- cael ei chofnodi â'r bwriad o'i phrosesu gan ddefnyddio'r fath offer;
- cael ei chofnodi fel rhan o system ffeilio berthnasol neu gyda'r bwriad y dylai ffurfio rhan o system ffeilio berthnasol; neu sy'n
- cynnwys cofnodion papur nad ydynt wedi'u cadw ar systemau ffeilio perthnasol a ddelir gan awdurdod cyhoeddus, yn ddarostyngedig i eithriadau, yn unol â'r diwygiad a gyflwynwyd gan Adran 68 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Diffinnir **rheolydd data** yn berson sydd (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd neu'n gyffredin â phobl eraill) yn pennu at ba ddibenion y mae neu y bydd unrhyw ddata personol yn cael ei brosesu ar eu cyfer, a'r dull y gwneir hynny. Yn Estyn, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yw'r rheolydd data.

Ystyr **prosesydd data** mewn perthynas â data personol yw unrhyw berson (ac eithrio gweithiwr y rheolydd data) sy'n prosesu'r data ar ran y rheolydd data. Yn Estyn, byddai proseswyr data yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o gytundebau lefel gwasanaeth, contractwyr a phartneriaid.

Ystyr **testun data** yw unigolyn sy'n destun data personol. Yn Estyn, bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, cofnodion staffio, manylion arolygwyr ychwanegol, aseswyr cyswllt, arolygwyr annibynnol, manylion pobl a gafodd eu dal yn ystod arolygiadau neu arolygon.

Mae'r **Comisiynydd Gwybodaeth** yn ddeiliad swydd annibynnol a benodwyd gan y Goron i weinyddu a gorfodi Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a deddfwriaeth arall sy'n llywodraethu defnyddio gwybodaeth a mynediad ati. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd.

Mae **rhybudd gwybodaeth** yn ddogfen gyfreithiol y gall y Comisiynydd Gwybodaeth ei chyhoeddi i reolydd data, sy'n ei wneud yn ofynnol iddo/iddi roi gwybodaeth i'r Comisiynydd er mwyn gallu asesu a yw'r rheolydd data yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ai peidio.

Ystyr **data personol** yw data sy'n ymwneud â pherson byw y gellir ei adnabod:

- o'r data hwnnw; neu
- o'r data hwnnw a gwybodaeth arall sydd ym meddiant y rheolydd data neu sy'n debygol i ddod i feddiant y rheolydd data.

Mae data personol yn cynnwys unrhyw fynegiad barn am yr unigolyn ac unrhyw fynegiad o fwriad y rheolydd data neu unrhyw berson arall mewn perthynas â'r unigolyn.

Ystyr **prosesu,** o ran gwybodaeth neu ddata, yw sicrhau, cofnodi neu ddal y wybodaeth neu'r data, neu gynnal unrhyw weithred neu gyfres o weithredoedd ar y data, gan gynnwys:

- trefnu, addasu neu newid y wybodaeth neu'r data;
- adfer, ymgynghori neu ddefnyddio'r wybodaeth neu'r data;
- datgelu'r wybodaeth neu'r data drwy eu trosglwyddo, eu lledaenu neu beri eu bod ar gael fel arall; neu
- alinio, cyfuno, rhwystro, dileu neu ddinistrio'r wybodaeth neu'r data.

Ffeil neu system a chanddynt strwythur neu fynegai sy'n ein galluogi ni i adfer gwybodaeth benodol am unigolyn adnabyddadwy yw **system ffeilio berthnasol**.

Ystyr **mynediad at destun** yw hawl testunau data i gael copi o'r wybodaeth a ddelir amdanynt, disgrifiad o pam mae eu gwybodaeth yn cael ei phrosesu, a manylion am unrhyw un a allai weld copi o'u data, at bwy y gellir ei throsglwyddo, a rhesymeg unrhyw benderfyniadau awtomataidd a gymerwyd ar sail y data hwnnw.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

Ffurflen Gais i Weld Data Gwrthrych

Eich hawl i weld y data a gedwir gennym amdanoch dan Ddeddf Gwarchod Data 1998

Yn amodol ar eithriadau arbennig, mae hawl gennych gael gwybod os ydym yn cadw unrhyw ddata personol amdanoch ac mae gennych yr hawl i gael copi o'r wybodaeth honno. Os byddwch yn penderfynu eich bod eisiau copi o'r wybodaeth honno, rhaid i ni roi disgrifiad o'r data i chi gan gynnwys esboniad o unrhyw dermau aneglur, a dweud wrthych o ble y cawsom y data, a rhoi esboniad i chi ynghylch unrhyw benderfyniadau awtomatig a wnaethom trwy ddefnyddio'r data, dweud wrthych at ba ddibenion yr ydym yn prosesu'r data a dweud wrthych a ydym wedi datgelu'r data hwn i unrhyw un arall.

Os credwch y gallai'r wybodaeth sydd gennym amdanoch nodi rhywun arall hefyd, efallai y byddwch yn dymuno cael caniatâd yr unigolyn hwnnw i chi dderbyn gwybodaeth o'r fath, gan anfon hwn gyda'ch cais.

Rhaid i ni ateb i unrhyw geisiadau a wnewch am gopi o'r wybodaeth bersonol a gadwn amdanoch, cyn pen 40 diwrnod o dderbyn y ffi o £10 a'r wybodaeth ddigonol i gadarnhau pwy ydych chi a'r wybodaeth yr hoffech ei chael.

Hawliau'r Prif Arolygydd

Gall Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wrthod i rywun weld yr wybodaeth pan fo'r Ddeddf yn caniatáu hynny.

Sut gallaf i gael gwybod pa wybodaeth y mae Estyn yn ei chadw amdanaf?

Gelwir cais am wybodaeth a gedwir amdanoch, yn gais i weld data gwrthrych.

Rhaid llenwi'r ffurflen hon er mwyn gwneud cais am gael yr wybodaeth, a rhaid anfon ffi o £10 gyda hi.

Beth allwch chi ei wneud os na chewch yr wybodaeth?

Yn gyntaf, dylech ysgrifennu at Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn nodi, yn eich barn chi, y rhesymau dros ddarparu'r wybodaeth.

Os nad ydych yn fodlon â'r ateb a gewch, mae'r dewisiadau canlynol ar gael i chi:

- Gallwch wneud cais i'r llys yn honni nad yw Estyn yn cydymffurfio â darpariaethau gweld data gwrthrych Deddf Gwarchod Data 1998.
- Gallwch ysgrifennu i'r Comisiynydd Gwybodaeth a allai gymryd un o'r camau canlynol:

    1. Gwneud asesiad ynghylch a yw hi'n debygol neu'n annhebygol bod y Prif Arolygydd wedi cydymffurfio â Deddf 1998.
    2. Cychwyn camau gorfodi os yw hi'n ymddangos bod y Prif Arolygydd wedi mynd yn groes i un o'r egwyddorion gwarchod data.
    3. Argymell y dylech gyflwyno cais i'r llys yn honni diffyg cydymffurfiaeth â darpariaethau gweld data gwrthrych Deddf Gwarchod Data 1998.

Talu

Dylech gynnwys siec o £10 yn daladwy i Estyn, sef y ffi am ryddhau'r wybodaeth.

Y Ffurflen Gais

Mae adran 1 yn gofyn i chi nodi gwybodaeth amdanoch a fydd yn helpu'r Prif Arolygydd i gadarnhau pwy ydych chi. Mae ganddi ddyletswydd i sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir ganddi, yn ddiogel, ac mae'n rhaid iddi fod yn fodlon mai chi yw'r unigolyn dan sylw.

Rhaid llenwi adran 2 gan ddweud wrthym yn eglur pa wybodaeth neu ddata personol o'n systemau yr hoffech gael copi ohono.

Mae adran 3 yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o bwy ydych chi trwy gynnwys dogfennau gyda'ch cais.

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen, dychwelwch hi drwy ddosbarthiad a gofnodwyd gyda'r dogfennau adnabod gofynnol a'r ffi o £10 at y Swyddog Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod

Preifat a Cyfrinachol
Y Swyddog Gwybodaeth
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

Byddwn yn gwneud ein gorau i ddychwelyd eich dogfennau atoch cyn gynted ag y bo modd. Efallai y dychwelir copi o'r data yr ydych wedi gofyn amdano, ar wahân.

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

Rhif cyfeirnod Estyn……..

Adran 1 – Amdanoch Chi

Defnyddiwch brif lythrennau os gwelwch yn dda

Teitl:	
Cyfenw/Enw teuluol:	
Enw(au) Cyntaf:	
Cyn Enw(au):	
Rhyw:	**Gwryw** ☐ **Benyw** ☐
Dyddiad Geni:	
Man Geni:	
Cyfeiriad Presennol: (Dyma ble fyddwn ni'n anfon yr ymateb i'ch cais)	**Cod Post**
Rhif Ffôn yn ystod y dydd:	

Adran 2 – Gwybodaeth sy'n cael ei chadw ar systemau Estyn

Nodwch y math o fanylion personol yr ydych yn gobeithio ei chael drwy dicio neu gwblhau'r blychau isod:

Cofnod y Gweithiwr	
Manylion gweithwyr o dan gytundeb, cytundeb partneriaeth neu unrhyw gytundeb tebyg arall	
Manylion am wybodaeth bersonol a ddarganfuwyd yn ystod arolygiadau	
Manylion am wybodaeth bersonol a ddarganfuwyd yn ystod gwaith arolwg neu waith ymchwil arall	
Data personol gasglwyd fel rhan o'r gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion ac apelion	
Arall (esboniwch os gwelwch yn dda)	

Nawr, rhowch fanylion pellach i ni ynghylch y data personol neu'r wybodaeth yr ydych yn gobeithio ei chael:

Enw'r sefydliad lle y cynhaliwyd yr arolygiad ynddo:
Dyddiad yr arolygiad/arolwg/cwyn:
Manylion y contract neu gytundeb arall o dan sylw:
Disgrifiad o'r cofnod rydych yn gobeithio derbyn copi ohono:

Sylwer – os ydych yn gobeithio derbyn copi o ffurflen arfarnu gwers, nodwch y pynciau a arfarnwyd.

Adran 3 – Prawf Adnabyddiaeth

Er mwyn pennu eich adnabyddiaeth, rhaid amgáu o leiaf dwy ddogfen swyddogol gyda'ch ffurflen gais sy'n cadarnhau'r canlynol:

Eich enw, cyfeiriad presennol, dyddiad geni a llofnod.

Rydym yn argymell eich bod yn anfon pob dogfen swyddogol drwy wasanaeth cyflwyno wedi'i gofnodi.

Mathau derbyniol o adnabyddiaeth	**Dangoswch isod (✓) y mathau o adnabyddiaeth amgaeedig**
Un ai trwydded gyrru neu basport*	
Cerdyn meddygol	
Tystysgrif geni/mabwysiadu	
Bil cyfleustod	

*** Mae eich trwydded gyrru neu basport yn hanfodol i gadarnhau eich dyddiad geni a llofnod. Gallwn dderbyn ffotocopïau.**

Bydd methiant i ddarparu prawf adnabyddiaeth a/neu ffi yn gohirio eich cais.

Datganiad (i'w lofnodi gan yr ymgeisydd)
Mae'r wybodaeth rwyf wedi ei chynnwys ar y ffurflen gais hon yn gywir a fi yw'r person y mae'n cyfeirio ato.

Llofnodwyd gan……..

Dyddiad……

Mwy o wybodaeth

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn. Gosodir y gyfraith gan Ddeddf Diogelu Data 1998, sydd ar gael o Swyddfa Wybodaeth y Sector Cyhoeddus. Gallwch gael rhagor o wybodaeth a chyngor oddi wrth:

Y Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Sir Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545827

Sylwer bod yn rhaid cyflwyno'r ffurflen gais hon am fynediad i wybodaeth yn uniongyrchol at Estyn, yn hytrach nag at y Comisiynydd Gwybodaeth.